Cofnodion Cyfarfod o Bwyllgor Cyllid Arbennig Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, am 7.30 p.m. ar ddydd Mercher, Rhagfyr 6ed, 2006

Presennol: Cyng Pam Steane Price, Cyng Colin Jenkins, Cyng Ieuan Gwyn,
Mr. Des Davies (Swyddog Technegol) Mr. Roger Phillips (Clerc y Dref)
Mr Christopher Plummer (Swyddog Cyllid)

Ymddiheuriadau Cyng Hugh Towns, Cyng Richard Wallace, Cyng Roy Davies, Cyng Dawn Wallace, Cyng Edward Thomas.

Cof 136 / Rhagfyr / 06 Cyllideb Arfaethedig y Cyngor ar gyfer y Flwyddyn 2007-8

Cyflwynwyd y gyllideb arfaethedig gan y Cadeirydd, Cyng Pam Steane Price yn dilyn cynnal cyfarfodydd ymgynghori gyda'r Swyddog Cyllid.
Argymhellwyd archebiant o £47,674 gan yr is bwyllgor sef cynnydd o 3% o gymharu â'r flwyddyn bresennol 2006-7

Gwnaed yr argymhellion canlynol

- Neuadd y Sir i drosglwyddo £10,073 ymlaen i'r flwyddyn nesaf er mwyn talu am waith cynnal a chadw.
- Ad-dalu benthyciadau, y £11,433 presennol i gynyddu i £12,500 i dalu am fenthyciad newydd.
- Wrth i gostau ynni godi gyda 30%, y gyllideb ar gyfer hyn i gynyddu i £650.
- Cynnydd o £250 mewn costau tanysgrifio.
- Costau swyddfa i fyny i £2,300, er mwyn cynnwys adroddiadau ychwanegol i aelodau.
- Bydd yr eitemau hyn yn ychwanegu £1,176 i gyfanswm y gyllideb a gynigir.

Cynigiwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn ac eiliwyd gan y Cyng Pam Steane Price y dylid argymell y gyllideb hon i'w derbyn yng nghyfarfod nesaf o'r Cyngor Llawn.

Roedd pawb yn gytûn.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.40pm.

Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk